# Cyngor Abertawe
# Strategaeth Rheoli Rhenti
# 2022 - 2026

**Cynnwys** — Tudalen Rhif


1. Cyflwyniad........................................................................ 4
2. Ein Prif Nod..................................................................... 5
3. Beth Rydym yn ei Wneud…....................................... 6
4. Y Rhent a Godir.............................................................. 10
5. Heriau (beth sy'n gwneud pethau'n anodd).............. 12
6. Blaenoriaethau (pethau pwysig i ganolbwyntio arnyn nhw) 14
7. Amcanion (beth rydym yn bwriadu ei wneud)...……. 15
8. Gwirio beth rydym wedi'i wneud................................ 19
9. Cydraddoldebau............................................................ 20
7. RHESTR O EIRIAU.......................................................... 21


Mae unrhyw eiriau sydd wedi cael eu hysgrifennu mewn **GLAS** yn cael eu hegluro yn y **RHESTR O EIRIAU** ac yn y testun.



Cyngor Abertawe

Strategaeth Rheoli Rhenti

2022 - 2026

Fersiwn **hawdd ei darllen** yw hon o ddogfen Cyngor Abertawe o'r enw

**Cyngor Abertawe**
**Strategaeth Rheoli Rhenti**
**2022 - 2026**




Mae **Strategaeth** yn gynllun sy'n dweud wrthych chi am y pethau rydyn ni eisiau eu gwneud.



Mae gan y strategaeth **Gynllun Gweithredu** hefyd
Mae'r **Cynllun Gweithredu** yn dweud wrthych chi sut rydym yn mynd i wneud hyn.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gael ar wahân




Gallwch gael y **ddogfen lawn** ar y **rhyngrwyd**

www.abertawe.gov.uk




Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn **fformat arall**,

**Er enghraifft....**




Print bras



Braille




CD

cysylltwch â'r **Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai**



Ffôn: 01792 635045




e-bost
tai@abertawe.gov.uk

**Mae'r llinellau ffôn ar agor**
Dydd Llun i ddydd Iau rhwng
**8.30am a 5pm**
Dydd Gwener**, 8.30am-4.30pm**

# CYFLWYNIAD

Mae'r strategaeth hon ar gyfer pobl sy'n **rhentu** eu cartrefi oddi wrth Gyngor Abertawe.



**Rhent** yw arian sy'n cael ei dalu gan denant i landlord.

Taliad am aros yn y cartref yw rhent.



Yr enw am bobl sy'n rhentu eu cartrefi yw **tenantiaid**.



Mae Cyngor Abertawe yn **landlord**.

Mae **landlord** yn berchen ar dai ac yn eu rhentu nhw i bobl.

# EIN PRIF NOD

## Mae ein prif nod yn cynnwys 2 beth:




**1.** Stopio **ôl-ddyledion** rhent

**Ôl-ddyledion rhent yw rhent y dylai'r tenant fod wedi'i dalu i'r landlord ond sydd heb ei dalu eto**




**2.** Gwneud yn siŵr bod tenantiaid yn gallu rheoli eu cartrefi

# BETH RYDYM YN EI WNEUD



Mae Cyngor Abertawe'n berchen ar 13,500 o dai yn Abertawe







Mae'n rhaid i holl denantiaid y Cyngor dalu rhent er mwyn aros yn eu cartrefi



Mae'r Tîm Rhenti yn gwneud yn siŵr bod y rhent yn cael ei gasglu...



... ac mae'n helpu tenantiaid i reoli’u taliadau rhent



Y peth pwysicaf yw bod y Tîm Rhenti yn cysylltu â'r tenantiaid yn gynnar os ydyn nhw wedi methu taliad rhent.



**Troi allan** yw'r opsiwn olaf ar gyfer ôl-ddyledion rhent.

**Troi allan yw pan fydd landlord yn gwneud i denant adael ei gartref am nad yw'r tenant yn cadw at y rheolau**



Os nad yw tenant yn gallu talu, bydd y Tîm Rhenti yn ceisio helpu cyn gymaint â phosib

# BETH RYDYN NI'N EI WNEUD (parhad)

**Mae nifer o resymau pam nad yw tenantiaid yn gallu talu eu rhent.**

**Er Enghraifft:**




- Colli swydd




- Llawer o ddyledion




- Hawl i fudd-dal yn newid neu'n stopio



- Cael trafferth rheoli arian

# BETH RYDYN NI'N EI WNEUD (parhad)

## Mae'r Tîm Rhenti'n helpu tenantiaid yn y ffyrdd canlynol:




- Trefnu i'r tenant dalu'r arian sy'n ddyledus yn ôl, ychydig ar y tro



- Helpu tenantiaid i gael cyngor ar ddyled ac arian




- Cyngor ar hawl i fudd-daliadau



- Help i gael gweithiwr cefnogi

Cyngor Abertawe
Swansea Council

# BETH RYDYN NI'N EI WNEUD (parhad)



## Mae gennym Swyddfeydd Tai Ardal y gall tenantiaid fynd iddyn nhw i...



- Dalu rhent



- Siarad â staff am unrhyw broblemau yn eu cartrefi



- Cael cyngor ar rent

# Y RHENT A GODIR

## SUT PENDERFYNIR AR SWM Y RHENT



Mae Llywodraeth Cymru yn dweud wrth y Cyngor faint o rent i'w godi.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni ddylai'r Cyngor godi fwy o rent na'r swm y mae Llywodraeth Cymru wedi'i osod.

## AM BETH MAE'R RHENT YN TALU?

Dim ond ar denantiaid y Cyngor a chartrefi'r Cyngor y gellir gwario'r arian o'r rhent.

### Mae'r rhent yn talu am...




- Staff a'r swyddfeydd tai ardal



- Atgyweiriadau i dai Cyngor



- Gwella tai Cyngor



- Adeiladu tai Cyngor newydd

# Y RHENT A GODIR (parhad)

## PAHAM Y BOD Y RHENT MOR BWYSIG





Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud yn siŵr bod digon o arian yn dod o'r rhent i dalu am:

- cartrefi o ansawdd da i denantiaid
- gwasanaeth cwsmer o ansawdd da i denantiaid





Mae'n rhaid i'r Tîm Rhenti wneud yn siŵr bod:

- rhent yn cael ei gasglu ar amser
- y tenantiaid sydd ddim yn gallu talu ar amser yn cael help

# YR HERIAU

## (Beth sy'n gwneud pethau'n anodd)



**TLODI** - tenantiaid heb ddigon o arian i fyw



**NEWIDIADAU I FUDD-DALIADAU -** mae llawer o fudd-daliadau wedi cael eu lleihau.

Mae'r ffordd y mae rhai budd-daliadau'n cael eu talu yn newid



**CYSYLLTU Â THENANTIAID** - gall bod yn anodd cysylltu â thenantiaid y mae angen help arnyn nhw i dalu eu rhent.

Nid yw tenantiaid bob amser yn ymateb i lythyrau, galwadau ffôn nac ymweliadau.

Mae llawer o resymau dros hyn.

# YR HERIAU (parhad)
# (Beth sy'n gwneud pethau'n anodd)



**CEFNOGAETH** - mae angen help ar lawer o denantiaid

**RHEOLAU LLYWODRAETH CYMRU** - mae Llywodraeth Cymru wedi newid y rheolau ynghylch swm y rhent y gall y Cyngor ei godi



**NEWIDIADAU OHERWYDD CORONAFEIRWS –**

- llai o gyswllt wyneb yn wyneb â thenantiaid
- tenantiaid yn colli'u swyddi am fod busnesau wedi gorfod cau. Mae hyn yn golygu bod ganddyn nhw lai o arian a bydd angen iddyn nhw ddibynnu ar fudd-daliadau.
- Rheolau newydd wedi’u gosod gan Lywodraeth Cymru am droi allan

# EIN BLAENORIAETHAU
## (Pethau pwysig i ganolbwyntio arnyn nhw)



Gwneud yn siŵr bod y broses o dalu rhent yn hawdd ac yn gyfleus i denantiaid



Dysgu sut gallwn wella'r ffordd rydym yn helpu tenantiaid â phroblemau ariannol



Gwneud yn siŵr bod nifer yr achosion o droi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent yn aros mor isel â phosib.

# EIN HAMCANION (mewn manylder)

**Amcan yw rhywbeth rydyn ni am ei gyflawni**



**AMCAN 1**

## Gwneud yn siŵr bod cymaint o rent â phosib yn cael ei gasglu

**Er mwyn gwneud hyn, rydyn ni eisiau............**




- Gwneud yn siŵr bod tenantiaid yn deall bod talu rhent yn bwysig iawn



- Gwneud yn siŵr bod staff yn gallu helpu gyda chwestiynau am rent



- Gwneud yn siŵr bod llawer o ffyrdd hawdd o dalu rhent




- Gwneud yn siŵr ei bod hi'n hawdd i denantiaid y Cyngor ddod o hyd i wybodaeth am eu rhent a faint i'w dalu



- Ei gwneud hi'n haws i denantiaid gael cyngor a gwybodaeth



## AMCAN 2
## Stopio ôl-ddyledion rhent mor gynnar â phosib

**Er mwyn gwneud hyn, rydyn ni eisiau............**



- Paratoi tenantiaid ar gyfer **cyllidebu** a thalu rhent cyn iddyn nhw symud i dŷ Cyngor.

**Mae cyllidebu'n golygu cynllunio faint rydych chi'n ei wario fel bod gennych ddigon o arian i dalu'ch biliau**



- Gwneud yn siŵr bod tenantiaid yn cael cyngor a chefnogaeth ar gyfer cyllidebu er mwyn osgoi cael ôl-ddyledion




- Gwella'r ffordd mae'r Tîm Rhenti yn cysylltu â thenantiaid



- Gwneud yn siŵr ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r Tîm Rhenti



- Gweithio'n agos gyda gweithwyr cefnogi er mwyn helpu tenantiaid sydd mewn angen



**AMCAN 3**
**Stopio ôl-ddyledion rhag cynyddu a helpu tenantiaid i reoli eu cartrefi ac atal cael eu troi allan**

**Er mwyn cyflawni hyn, rydym am............**



- Newid y ffordd o gysylltu â thenantiaid pan mae ganddyn nhw ôl-ddyledion



- Cysylltu â thenantiaid cyn gynted â phosib pan maen nhw'n methu taliad rhent




- Gwneud yn siŵr bod y Tîm Rhenti yn gadarn ond yn deg




- Gwneud yn siŵr bod popeth yn hawdd ei ddeall



- Deall pam nad yw tenantiaid yn gallu talu a cheisio helpu cyn gynted â phosib




- Gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud popeth y gallwn ni i gadw rhywun yn ei gartref



## AMCAN 4
## Helpu tenantiaid i ymdopi â'r newidiadau i'w budd-daliadau (e.e. Budd-dal Tai, Credyd Cynhwysol)

**Er mwyn gwneud hyn, rydym am............**




- Helpu tenantiaid gyda'u budd-daliadau

UC Universal Credit

- Gwneud yn siŵr bod tenantiaid yn gwybod sut bydd y newidiadau i fudd-daliadau yn effeithio arnyn nhw




- Helpu tenantiaid i deimlo'n hyderus wrth reoli eu rhent a'u hawliadau budd-daliadau ar-lein



- Gweithio gyda sefydliadau eraill i ddysgu gan ein gilydd sut i wneud pethau'n dda

# GWIRIO BETH RYDYM WEDI'I WNEUD



Sut bydd y Cyngor yn gwirio bod y strategaeth yn gwneud gwahaniaeth?



Bydd y Cyngor yn gwirio'r Cynllun Gweithredu yn ofalus i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud beth rydyn ni wedi addo'i wneud




Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn ysgrifennu adroddiad am y gwaith sydd wedi'i wneud yn y strategaeth

# CYDRADDOLDEBAU





**Cydraddoldeb** yw bod pobl yn cael yr hawl i'r un pethau, heb gael eu gadael mas




Mae'r strategaeth wedi cael ei gwirio i wneud yn siŵr bod y Cyngor yn mynd i drin pawb yn gyfartal

# RHESTR O EIRIAU

| | | |
|---|---|---|
|  | **Y Gair** | **Ei Ystyr** |
|  | **Strategaeth** | Cynllun yw hwn sy'n dweud beth rydyn ni am ei wneud |
|  | **Cynllun Gweithredu** | Cynllun yw hwn sy'n dweud sut byddwn ni'n gwneud pethau |
|  | **Rhent** | Taliad am aros yn eich cartref yw rhent. |
|  | **Tenant** | Rhywun sy'n talu rhent i fyw mewn tŷ |
|  | **Landlord** | Person neu sefydliad sy'n berchen ar dŷ ac yn ei rentu i rywun |
|  | **Ôl-ddyledion Rhent** | Ôl-ddyledion rhent yw rhent y dylai'r tenant fod wedi'i dalu ond y mae angen ei dalu i'r landlord o hyd. |

# RHESTR O EIRIAU (Parhad)

|  | Y Gair | Ei Ystyr |
|---|---|---|
|  | **Troi Allan** | Troi allan yw pan fydd landlord yn gwneud i denant adael ei gartref am nad yw'r tenant yn cadw at y rheolau |
|   | **Blaenoriaethau** | Y blaenoriaethau yw'r pethau pwysicaf |
|  | **Amcan** | Rhywbeth rydyn ni am ei gyflawni |
|  | **Cyllidebu** | Mae cyllidebu yn golygu cynllunio faint rydych chi'n ei wario fel bod gennych chi ddigon o arian i dalu'ch biliau |
|   | **Cydraddoldeb** | Cydraddoldeb yw bod pobl yn cael yr hawl i'r un pethau, heb gael eu gadael mas |